

Llwybr Arfordir Cymru – Arfordir y Gogledd Arolwg Busnes 2024

Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt
jhollingsworth@djsresearch.com

Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil
crapkins@djsresearch.com

Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil
eward@djsresearch.com



Cynnwys

- 3 Cefndir a methodoleg
- 6 Proffiliau busnes
- 11 Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau
- 16 Ansawdd y llwybr
- 19 Hyrwyddo'r llwybr
- 28 Casgliadau ac argymhellion



Llwybr Arfordir Cymru - Arfordir y Gogledd Cefndir a Methodoleg

Cefndir a Methodoleg

Prif nod yr arolwg hwn yw gwella dealltwriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill o'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau i fanteisio i'r eithaf ar eu lleoliad a'r cyfleoedd a gyflwynir gan llwybrau pellter hir Cymru, sef Llwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro), Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr.

Yn gyffredinol, mae'r amcanion yn ymwneud â'r holl llwybrau pellter hir; fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar fudd **Llwybr Arfordir Cymru ar hyd Arfordir y Gogledd**.

Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:

- Nodi'r mathau o fusnesau sy'n gweithredu ar y llwybrau neu'n agos atynt.
- Deall y gwasanaethau a ddarperir gan fusnesau sy'n agos at y llwybrau.
- Asesu'r buddion y mae'r llwybrau'n eu rhoi i fusnesau, gan gwmpasu incwm uniongyrchol ac anuniongyrchol a gynhyrchir dros wahanol dymhorau.
- Gwerthuso lefel y cydweithio ymhlith busnesau ar hyd y llwybrau.
- Gofyn am farn ar faterion megis argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, gweledd, hygyrchedd, arwyddion, marchnata, cefnogaeth, ac unrhyw heriau neu rwystrau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.
- Archwilio'r diddordeb a'r gefnogaeth ar gyfer sefydlu porth busnes pwrpasol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.
- Hwyluso cymhariaeth ag arolygon blaenorol a gynhaliwyd ar yr un pwnc lle bo hynny'n bosibl neu'n berthnasol.



Cynhaliwyd yr arolwg hwn drwy gyfweiliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur (CATI). Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn gynhwysol ac yn hygyrch, darparwyd opsiwn ar-lein hefyd.

I fod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i fusnesau naill ai ystyried eu hunain yn agos at un o'r llwybrau pellter hir (o fewn pellter cerdded neu daith car fer) neu ddatgan eu manteision busnes o un o'r llwybrau mewn rhyw ffordd.

Ar y cyfan, roedd ychydig dros fil o fusnesau yn rhan o'r arolwg. Roedd **79 ohonynt wedi'u lleoli ar hyd Arfordir y Gogledd** ac fe'u neilltuwyd i Llwybr Arfordir Cymru, ar y sail mai dyna oedd eu llwybr agosaf neu'r un y cawsant y budd mwyaf ohono. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y busnesau hyn yn unig.

I gael manylion llawn y fethodoleg, gweler Arolwg Busnes Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol 2024 (adroddiad cyffredinol).⁴

Canllaw i'r adroddiad hwn

Talgrynnu

Cyflwynir y canlyniadau yn yr adroddiad hwn fel rhifau cyfan er hwylustod darllen a dehongli. Talgrynnir ar gam olaf y cyfrifiad er mwyn sicrhau'r cywirdeb mwyaf. Felly, lle cyflwynir canlyniadau fel % yn gadarnhaol, % yn niwtral neu % yn negyddol, efallai y bydd achosion lle nad yw'r canlyniadau'n dod i gyfanswm o 100%. Ni ddylai'r gwahaniaethau byth amrywio o +/- 1% pwynt.

Meintiau sylfaen

Sylwch, y meintiau sylfaen sydd wedi'u cynnwys yw cyfanswm y bobl a ymatebodd i gwestiwn penodol. Gan nad yw pawb wedi ateb pob cwestiwn, gall y sylfaen ar gyfer cwestiynau unigol fod yn is na chyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd i'r arolwg, sydd wedi'u lleoli ar Arfordir y Gogledd ac a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (79).

Diffiniad o lwybr 'a neilltuwyd'

Ar ôl ateb cyfres o gwestiynau sgrinio i bennu agosatrwydd (So2a, So2b) a phwysigrwydd llwybrau i fusnesau unigol (So3, Co1 a Co2), neilltuwyd llwybr i fusnesau a gofynnwyd iddynt ymateb i weddill cwestiynau'r arolwg yn seiliedig ar eu llwybr 'penodedig'. Mewn achosion lle'r oedd busnesau wedi'u lleoli'n agos at neu'n elwa o fwy nag un llwybr, cawsant eu neilltuo i'r un a) a oedd yn cynhyrchu'r gyfran uchaf o werthiannau/trosiant neu b) y maent yn fwyaf dibynnol arno ar gyfer eu busnes.

Cymhariaeth â gwerthoedd 'cyfanswm'

Yn yr adroddiad hwn, mae canlyniadau'r rhai sydd wedi'u lleoli ar hyd Arfordir y Gogledd ac sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru yn cael eu cymharu â'r ffigurau cyfartalog o'r sampl gyfan o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru, waeth beth fo lleoliad y busnes. Mae'r cyfartaledd cyfun wedi'i labelu fel "Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)" yn y siartiau cymharu. Lle mae ffigurau'n sylweddol uwch na'r cyfanswm ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol, bydd saeth liw yn y siart yn dangos a yw hyn yn sylweddol uwch neu is. Os nad oes saeth, nid yw'r ffigur hwn yn sylweddol wahanol i'r cyfanswm a dylid ei drin yn ofalus. Lle bernir bod gwahaniaethau mawr yn ddi-nod, mae'n debygol bod hyn oherwydd maint sylfaen gwahanol y ddwy sampl.



Sylwch – mae Llwybr Arfordir Sir Benfro wedi'i ddosbarthu fel Llwybr Cenedlaethol ond mae hefyd yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru. Drwy gydol yr adroddiad hwn, wrth gyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru (cyfanswm), rydym yn cyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro.

Llwybr Arfordir Cymru - Arfordir y Gogledd

Proffiliau Busnes

Proffiliau busnes (I)

Mae'r 79 o fusnesau ar hyd Arfordir y Gogledd yn cynrychioli amrywiaeth o sectorau - Mae 38% yn y sector llety ac 20% yn y sectorau lletygarwch/arlwyo. Mae 13% arall yn gweithio ym maes manwerthu. Yn gyffredinol, mae 87% o'r busnesau hyn o fewn y sector preifat, gyda 6% yn fusnesau sector cyhoeddus.




Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru gan gynnwys Sir Benfro) (79). **CosB.** Pa un o'r canlynol sy'n crynhoi gweithgareddau eich prif fusnes orau? **Cos1.** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch busnes orau?

↓ ↑ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)


Proffiliau Busnes (II)

Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau (91%) yn rhanbarth Arfordir y Gogledd yn cyflogi llai na 50 o weithwyr. Mae microfusnesau gyda gweithlu o 0-9 o weithwyr yn cyfrif am 56% o'n sampl. Mae 35% arall yn fusnesau bach gyda rhwng 10-49 o weithwyr. O edrych ar drosiant, mae'r gyfran uchaf - 16% - yn nodi trosiant o £50-99,000 y flwyddyn. Gyda'i gilydd, mae 51% o fusnesau'n nodi trosiant o £300,000 neu lai.

Maint y busnes



Trosiant




Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru)(79) Co7A/B. Gan gynnwys eich hun, faint o staff llawn amser a rhan amser parhaol a gyflogir gan eich busnes? **Co2.** Beth oedd trosiant bras eich busnes (neu werth gwerthiant) yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?


Proffiliau busnes (III)

Mae bron i hanner (43%) y busnesau ar Arfordir y Gogledd y buom yn siarad â nhw wedi'u sefydlu ers dros 20 mlynedd, gyda 15% ohonynt wedi bod yn gweithredu ers 10-19 mlynedd. Ychydig iawn oedd yn fusnesau newydd eu sefydlu. Mae 84% o'r busnesau y buom yn siarad â nhw ar Arfordir y Gogledd yn gweithredu o un lleoliad yng Nghymru. Mae gan 9% ohonynt fwy nag un lleoliad ledled Cymru.

Nifer y safleoedd



Daliadaeth y busnes




Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru)(79). **Co6.** A yw eich busnes yn gweithredu o un lleoliad neu eiddo, neu leoliadau neu adeiladau lluosog? **Co4.** Oddeutu pa mor hir mae eich busnes wedi bod yn gweithredu o'r lleoliad hwn?

Proffiliau busnes (IV)

Mae 76% o fusnesau ar hyd Arfordir y Gogledd ar agor drwy gydol y flwyddyn. I 37% ohonynt, mae busnes fwyaf tebygol o fod ar ei brysuraf yn ystod misoedd yr haf. Fodd bynnag, mae busnesau ar Arfordir y Gogledd ychydig yn fwy tebygol o adrodd nad yw eu busnes yn cael ei effeithio'n dymhorol o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws Llwybr Arfordir Cymru (29% o'i gymharu â 27%).


Busnes ar agor drwy'r flwyddyn

Arfordir y Gogledd




■ Ydy ■ Nac ydy

Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)



■ Ydy ■ Nac ydy

Tymor brig



Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru (664), Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru)(79). **Cwoga.** Ydy'ch busnes ar agor drwy'r flwyddyn? **CogB.** A oes yna dymor neu amser penodol o'r flwyddyn pryd y mae'r defnydd o'ch cynhyrchion neu wasanaethau ar ei uchaf o ganlyniad i Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol?


Llwybr Arfordir Cymru - Arfordir y Gogledd

Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

Proffiliau busnes – yn benodol i'r llwybr

Mae 46% o fusnesau yn ystyried bod y llwybr yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn i lwyddiant eu busnes, gyda 16% yn nodi ei fod yn bwysig iawn. Mewn cyferbyniad, mae 42% yn nodi nad yw'r llwybr o fudd i lwyddiant eu busnes o gwbl, ac mae hyn 10 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob busnes ar hyd Llwybr Arfordir Cymru (32%).

Pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant busnesau




Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru (664), Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'i neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru (79).

Coz. Sut byddech chi'n disgrifio pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant eich busnes?

Proffiliau busnes – yn benodol i'r llwybr


Mae Llwybr Arfordir Cymru yn cynhyrchu hyd at 10% o werthiant/trosiant i 50% o fusnesau ar hyd Arfordir y Gogledd. Dywed 26% arall fod y llwybr yn cynhyrchu 11-50% o'u gwerthiant/trosiant.

Canran y gwerthiannau/trosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr y llwybr / bodolaeth y llwybr



Sylfaen: Pob busnes sydd wedi'i neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru ac sy'n gweithredu ar hyd Arfordir y Gogledd sy'n nodi bod y llwybr yn bwysig i'w fusnes (46) Co3. Pa ganran o'ch gwerthiant neu drosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr y llwybr neu y gellir ei phriodoli i'w fodolaeth mewn rhyw ffordd?

Manteision y llwybr i fusnesau



Mae 30% o fusnesau yn rhanbarth Arfordir y Gogledd yn cytuno bod presenoldeb y llwybr wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr i'w busnes, gyda 23% arall yn nodi ei fod wedi bod o fudd i'w trosiant. Mae nifer yr achosion o'r ddau fudd ar hyd Arfordir y Gogledd yn sylweddol is na chyfran y busnesau sy'n nodi'r un peth ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, yn genedlaethol.

Mewn gwirionedd, i 66% o fusnesau yma, nid yw presenoldeb y llwybr wedi gwneud unrhyw wahaniaeth. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru (46%).


Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (66%), Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (79) **C24a.** Ydych chi'n meddwl bod presenoldeb Llwybr Arfordir Cymru wedi arwain neu wedi cyfrannu at unrhyw un o'r canlynol ar gyfer eich busnes?

↓ ↑ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

Mae 19% o fusnesau ar hyd Arfordir y Gogledd yn meddwl y bydd Llwybr Arfordir Cymru yn dod yn bwysicach i'w llwyddiant yn y dyfodol (o'i gymharu â 23% ar gyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru i gyd). Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd posibl mewn twristiaeth o ganlyniad i hyrwyddo'r llwybr a mwy o bobl yn ymweld ac yn aros yn yr ardal. Ond mae 75% yn nodi nad ydynt yn disgwyl gweld unrhyw newid yn y dyfodol.

Newid ym mhowsigrwydd y llwybr i lwyddiant busnes




Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (79) C25a. A ydych yn ystyried y bydd unrhyw newid yn y dyfodol ym mhowsigrwydd Llwybr Arfordir Cymru i lwyddiant eich busnes? **Sylfaen:** Lle y bydd y llwybr yn dod yn bwysicach (16) C25b. Beth yw'r rheswm dros hynny?

Llwybr Arfordir Cymru - Arfordir y Gogledd

Ansawdd y Llwybr

Canfyddiadau o agweddau o'r llwybr

Cyflwynwyd rhestr o chwe agwedd i bob busnes a gofynnwyd iddynt raddio pob un. O'r holl agweddau a gafodd eu graddio, mae busnesau ar eu mwyaf cadarnhaol ynglŷn ag arwyddion (41% da/da iawn) a chynnal a chadw dodrefn y llwybr (38% da/da iawn). Maent yn llai cadarnhaol ynglŷn â chynnal a chadw cyfleusterau neu wasanaethau ar hyd y llwybr (23% da/da iawn). Fodd bynnag, ni roddodd cyfran sylweddol o fusnesau (25-37%) sgôr i unrhyw agwedd. Gallai hyn fod oherwydd diffyg ymwybyddiaeth a/neu nad yw perchnogion busnes wedi defnyddio'r llwybr.




Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (79) C20. Sut fydddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol? Ni ddangosir labeli data <5%

Yn sylweddol uwch/is na Llwyr Arfordir Cymru (cyfanswm)

Canfyddiadau o agweddau o'r llwybr

Wrth eithrio ymatebion 'ddim yn gwybod', mae'r graddau o ran cynnal a chadw dodrefn y llwybr yn parhau i fod fwyaf cadarnhaol (59% yn dda / da iawn), ac yna arwyddion, gyda 54% o'r rhai a oedd yn ymwybodol yn graddio hyn yn dda / da iawn. Yn anffodus, mae anfodlonrwydd â hygyrchedd yn uwch, gyda 41% yn nodi gwael / gwael iawn o gymharu â 27% gan gynnwys yr ymatebion 'ddim yn gwybod'.



Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (79) C20. Sut fydddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol? *Mae'r sylfaen yn amrywio yn ôl datganiad oherwydd bod ymatebion 'ddim yn gwybod' wedi'u dileu. Ni ddangosir labeli data <5%


Yn sylweddol uwch/is na Llwyr Arfordir Cymru (cyfanswm)

Llwybr Arfordir Cymru - Arfordir y Gogledd Hyrwyddo'r Llwybr



Ymwybyddiaeth Brandio

Dim ond 48% o fusnesau rhanbarth Arfordir y Gogledd sydd â rhywfaint o ymwybyddiaeth o frand y llwybr (o'i gymharu â 71% o fusnesau ar gyfartaledd ar gyfer y Llwybr Arfordir yn ei gyfanrwydd), gyda 14% o fusnesau yn nodi eu bod yn 'ymwybodol iawn'. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r ymatebwyr hynny ddisgrifio'r logo, ni chafodd pob un y manylion yn gywir. Dywedodd 32% yn gywir fod y logo'n felyn, a dywedodd 24% ei fod yn las, ond dim ond 8% oedd yn cofio ei fod yn wyn, ac 11% yn nodi'n gywir fod y logo yn cynrychioli cragen. Yn ogystal, mae 50% yn nodi nad yw'r logo yn gofiadwy.




Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru) (79) **C10.** I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Cymru neu sut mae'n cael ei hyrwyddo? Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Cymru neu sut mae'n cael ei hyrwyddo (38) **C11.** Sut byddech chi'n disgrifio brandio (h.y. logo) Llwybr Arfordir Cymru?

↓ ↑ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)


Ymwybyddiaeth hysbysebu

Mae 29% o fusnesau rhanbarth Arfordir y Gogledd wedi gweld rhywfaint o gyhoeddusrwydd neu hysbysebu yn ymwneud â'r llwybr dros y 12 mis diwethaf (o'i gymharu â 38% ar gyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru i gyd). Ymhlith y 23 busnes sydd wedi gweld hysbysebion, mae'n fwyaf tebygol eu bod wedi'u gweld ar Facebook, arwyddion a'r teledu.

Y % a welodd cyhoeddusrwydd/hysbysebu



Lle gwelwyd cyhoeddusrwydd/hysbysebu*




Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (79) C12. Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am Lwybr Arfordir Cymru? **Sylfaen:** Pob ymatebydd sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (23) C13. A allwch ddweud wrthyf ble neu sut yr ydych chi wedi gweld cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru? * RHYBUDD: maint y sylfaen yn fach **Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos.

Derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol

Dim ond 10% o fusnesau sy'n cofio iddynt gael cyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn gyson gyda'r cyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd (10%).

Y % a dderbyniodd cyfathrebiadau uniongyrchol



* Sylwer – mae'r maint sylfaen ar gyfer adrodd adborth ar y cyfathrebu uniongyrchol a dderbyniwyd yn rhy isel i'w ddadansoddi ar lefel ranbarthol.


Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (79) C15. Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych yn cofio derbyn unrhyw gyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru?

Hyrwyddo'r llwybr gan fusnesau

Mae 38% o fusnesau Arfordir y Gogledd yn hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru mewn rhyw ffordd (o'i gymharu â 52% ar gyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru), gyda 10% yn nodi bod y llwybr yn cael ei grybwyll yn benodol yn eu deunyddiau marchnata. Mae 30% arall o fusnesau yn hyrwyddo'r llwybr ar lafar gwlad (o'i gymharu â 40% o gyfanswm Llwybr Arfordir Cymru), a 4% yn sôn am llwybr, ond nid yn ôl enw (o'i gymharu â 9% o gyfanswm Llwybr Arfordir Cymru).

*** Sylwch – cwestiwn amlddewis oedd hwn, sy'n golygu na fydd y cyfanswm yn cyrraedd 100%.**

Cyfrifwyd canran y busnesau sy'n hyrwyddo'r llwybr mewn rhyw ffordd drwy dynnu'r ganran sy'n dweud nad ydynt yn ei hyrwyddo (62%) o 100.




Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru) (79) C17. A ydych chi'n sôn am neu'n hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru yn unrhyw un o'ch deunyddiau marchnata eich hun, er enghraifft ar eich gwefan neu sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu wrth siarad â'ch cwsmeriaid?

↓ ↑ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

Hyrwyddo'r Llwybr

Mae 78% o fusnesau ar hyd Arfordir y Gogledd yn credu nad yw Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol. Dim ond 10% sy'n dweud ei fod yn cael ei hyrwyddo ar y lefel gywir (o'i gymharu â chyfanswm o 21%). Mae hyn yn cysylltu â'r canfyddiadau ar sleid 28 sy'n tynnu sylw at yr angen i godi proffil y Llwybr.

Yn gyffredinol, ydych chi'n meddwl bod y Llwybr yn cael ei hyrwyddo...?




Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (79) **C19.** Yn gyffredinol, a ydych chi'n meddwl bod Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei hyrwyddo...?

↓ ↑ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

Annog ymweliadau

Cyflwynwyd pedwar gwelliant posibl i'r llwybr i fusnesau a gofynnwyd iddynt ddatgan i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno a oedd eu hangen. Mae 70% o fusnesau'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth / gwell gwybodaeth am sut i gael mynediad i'r llwybr mewn car. Dilynr hyn yn agos gan fwy o wybodaeth / gwell gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus fel amserlenni (68%) a gwell darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus (59%). Ar nodyn mwy cadarnhaol, dim ond 39% sy'n meddwl bod angen gwell cysylltiadau ffordd.




Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru) (79) C21. I ba raddau a ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â Llwybr Arfordir Cymru? *Sylwer – nid yw labeli data <3% yn dangos er taclusrwydd.

↓ ↑ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

Gwella mynediad

Pan ofynnwyd mewn cwestiwn agored pa welliannau sydd eu hangen i wella mynediad, prif argymhelliad busnesau Arfordir y Gogledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yw darparu mwy o wybodaeth gyffredinol am y llwybr, gyda 25% yn blaenoriaethu hyn, 7 pwynt canran yn uwch na'r canfyddiadau ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol (18%). Mae Busnesau ar hyd Arfordir y Gogledd hefyd yn rhoi pwyslais ar godi proffil Cymru a Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm o 19% o'i gymharu â 16%). Yn ogystal, mae 15% yn credu y gallai cwsmeriaid/ymwelwyr elwa o well arwyddion, sydd 4 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru (11%).




Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru) (79) C22. Pa welliannau (os o gwbl) ydych chi'n meddwl sydd eu hangen i helpu mwy o gwsmeriaid/ymwelwyr i deithio o gwmpas neu i gael mynediad i'r llwybr? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos.

  Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

Gwybodaeth i gefnogi cwsmeriaid busnes / defnyddwyr Llwybr

Mae'r wybodaeth a grybwyllir amlaf y mae busnesau'n credu y byddai eu cwsmeriaid yn ei chael fwyaf buddiol yn ymwneud â mannau o ddiddordeb i ymweld â nhw (15%), cylchdeithiau a llwybrau cylchol (14%), gwybodaeth am gysylltiadau trafndiaeth (10%) a theithiau cerdded (10%).



Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y Gogledd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (79) C30. Pa fath o wybodaeth ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf defnyddiol i'ch cwsmeriaid neu ddefnyddwyr eraill Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos

↓ ↑ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

Llwybr Arfordir Cymru - Arfordir y Gogledd

Casgliadau ac argymhellion

Casgliadau

Er bod 42% o fusnesau ar Arfordir y Gogledd yn nodi nad yw'r llwybr yn cynnig budd ar hyn o bryd i'w busnes, mae 58% yn cydnabod ei bwysigrwydd, gyda 16% yn ei ddisgrifio'n 'bwysig iawn' i'w llwyddiant.

Yn ogystal, mae 19% yn rhagweld y bydd y llwybr yn dod yn bwysicach fyth yn y dyfodol wrth i dwristiaeth gynyddu ac i'r llwybr gael ei hyrwyddo ymhellach.

Ar hyn o bryd, mae gan bron i hanner (48%) y busnesau ar hyd Arfordir y Gogledd rywfaint o ymwybyddiaeth o frandio Llwybr Arfordir Cymru, sy'n dangos ymgysylltiad cychwynnol da.

Fodd bynnag, mae hyn yn gadael lle i wella ymhellach i sicrhau y gall busnesau ddefnyddio'r brandio'n llawn yn eu hymdrechion marchnata.

Mae gwella mynediad i drafndiaeth yn cynnig cyfleoedd i gynyddu nifer yr ymwelwyr.

Mae busnesau'n tynnu sylw at yr angen am well gwybodaeth ynglŷn â mynediad i geir (70%) a gwell manylion am drafndiaeth gyhoeddus (68%), ond mae gwelliannau i'r ffyrdd yn llai o flaenoriaeth.

Argymhellion

Gallai busnesau gydweithio â byrddau twristiaeth a chymdogion i ddatblygu mentrau hyrwyddo ar y cyd fel "Gostyngiadau Darganfod Llwybrau" a theithiau thema, gan annog ymweliadau hirach a mwy o wariant.

Er mwyn gwella ymwybyddiaeth ymhellach, gellid ystyried lansio ymgyrch ymwybyddiaeth wedi'i thargeddu i addysgu busnesau am y brand a'i fanteision.

Gallai hyn gynnwys gweithdai, allgymorth uniongyrchol, a deunyddiau gwybodaeth wedi'u teilwra ar gyfer busnesau lleol. Byddai darparu arwyddion ffisegol, pecynnau hyrwyddo, a chynnwys wedi'i frandio yn sicrhau bod y llwybr yn cael ei gydnabod a'i hyrwyddo'n gyson ar draws y rhanbarth.

Gallai canllawiau teithio symlach sy'n cynnwys cysylltiadau trafndiaeth a lleoliadau parcio wella mynediad i ymwelwyr.

Gallai bysiau gwennol tymhorol ac arwyddion cliriach, a ddatblygwyd trwy bartneriaethau, wella hygyrchedd ymhellach.

Casgliadau

Mae busnesau wedi nodi sawl math o wybodaeth y byddai ymwelwyr yn ei chael yn fuddiol, gan gynnwys mannau o ddiddordeb (15%), llwybrau cylchol (14%), a chysylltiadau trafnidiaeth (10%).

Trwy gynnig mwy o wybodaeth wedi'i thargedu, gallai busnesau wneud mwy i ddiwallu anghenion defnyddwyr y llwybr a'u cynorthwyo i gynllunio ymweliadau hirach llawn mwynhad.

Mae canfyddiadau cadarnhaol ynglŷn â chynnal a chadw yn sylfaen dda ar gyfer gwella.

Mae 59% o fusnesau yn graddio cynnal a chadw dodrefn llwybr yn gadarnhaol, ond mae lle i wella ansawdd y wybodaeth a ddarperir a chynnal cyfleusterau ar hyd y llwybr.

Mae cyfathrebu mwy gyda busnesau'n cynnig cyfle ar gyfer mwy o gydweithio.

Er mai dim ond 10% o fusnesau sy'n cofio derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru, mae'r lefel isel o ymgysylltiad yn gyfle i greu cysylltiadau mwy ystyrlon a phenodol gyda busnesau lleol.

Argymhellion

Mae cyfle i weithio gyda rhanddeiliaid lleol i ddatblygu mapiau, teithlenni ac adnoddau digidol deniadol sy'n arddangos atyniadau cyfagos, llwybrau cylchol, ac opsiynau trafnidiaeth. Byddai datblygu teithiau cerdded a mapiau digidol, fel "Dolenni Antur i Deuluoedd" neu "Lwybrau Hanesyddol," yn helpu busnesau i hyrwyddo eu cynigion a chreu profiad mwy deniadol i ymwelwyr.

Ystyried cyflwyno rhaglen cynnal a chadw a gwella hygyrchedd yn rheolaidd, gan flaenoriaethu meysydd a amlygir gan fusnesau fel cyfleusterau a gwasanaethau llwybrau.

Gallai hyn gynnwys arolygiadau aml, mecanweithiau adrodd clir i fusnesau i nodi problemau, a gwelliannau wedi'u targedu gwella arwyddion a darparu gwell gwybodaeth.

Gallai gwella'r cylchlythyr cyfredol gyda chynnwys yn benodol ar gyfer busnesau, megis straeon o lwyddiant a chyfleoedd i gydweithio, gynyddu ymgysylltiad.

Gallai grŵp cyswllt busnes penodol gefnogi adborth uniongyrchol a mentrau ar y cyd ymhellach.

For more information

Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt
jhollingsworth@djsresearch.com

Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil
crapkins@djsresearch.com

Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil
eward@djsresearch.com



Head office: 3 Pavilion Lane, Strines,
Stockport, Cheshire, SK6 7GH

Leeds office: Regus, Office 18.09, 67 Albion Street
Pinnacle, 15th–18th Floors, Leeds, LS1 5AA

+44 (0)1663 767 857 | djsresearch.co.uk

